Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Ionawr 2010 — Rhifyn 15

Yn y Rhifyn Hwn:

• Ymladdwyr Tanau'n Mynd ar eu Beiciau • Rhannu Arferion Da ym Maes Hyfforddiant Beicio
• Ymgyrch 'Er Eu Lles Hwy' • Gêm Ar-lein Newydd • Technoleg Cerbydau
• Penodi Arbenigwr Annibynnol • Disgowntiau ar Yswiriant Beicwyr Modur
• Gyrwyr Ceir Cwmni heb fod yn Gwirio Digon • Van Best Practice
• Dedfrydau Llymach i Yrwyr Peryglus • Newyddion y BBC – Degawd o Farwolaethau ar y Ffyrdd

Ymladdwyr Tanau Merthyr yn Mynd ar eu Beiciau

Mae Is-Adran Diogelwch Ffyrdd Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yng Ngorsaf Dân Merthyr Tudful wedi dod ynghyd i gynnig hyfforddiant beicio hyd at lefelau 1, 2 a 3 y Safonau Cenedlaethol sydd wedi disodli'r hen wobr hyfedredd beicio..

Er i lefelau 1 a 2 y cynllun safonau cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ysgolion cynradd yr awdurdod 3 blynedd yn ôl, dyma'r tro cyntaf i'r cynllun gael ei gyflwyno gan y Cyngor mewn partneriaeth ag asiantaeth sydd â'i chanolfan yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r ddau ymladdwr tanau, Aeden O'Neill a Rheolwr y Criwiau, Adrian Thomas, sydd ill dau yn aelodau o Orsaf Dân Merthyr Tudful, wedi ymgymhwyso'n llawn yn hyfforddwyr beicio i'r safonau cenedlaethol, a byddant yn lansio'r fenter newydd hon yn Ysgol Gynradd Mount Pleasant ac Ysgol Gynradd Dowlais.

Meddai Rheolwr yr Orsaf, Nigel Williams, "Byddwn ni bob amser yn falch o gymryd rhan mewn gweithgareddau partneriaeth yn y fwrdeistref i gynyddu diogelwch y cyhoedd. Hoffwn ddiolch i Jill Harper, Swyddog Diogelwch Ffyrdd Merthyr, am ein helpu ni mewn menter a fydd, rwy'n siŵr, yn cynyddu diogelwch ein plant ar y ffyrdd." Caiff ysgolion eraill yn yr awdurdod gyfle i gymryd rhan yn y cynllun yn 2010.

Cynhadledd Hyfforddiant ac Addysg Beicio y CTC yng Nghymru

Rhannu arferion da wrth hyfforddi beicio.

Gwahoddir hyfforddwyr beicio, darparwyr hyfforddiant, a threfnwyr a rheolwyr cynlluniau i ddod i gynhadledd hyfforddiant beicio gyntaf Cymru yn Llandrindod ddydd Mercher 10 Mawrth. Bydd y cyfuniad o siaradwyr, gweithdai, stondinau a chyfleoedd i rwydweithio yn gyfle i bawb sy'n ymwneud â hyfforddiant beicio rannu arferion da.

working for cycling

I gael gwybod rhagor, cysylltwch â:
Gwenda Owen, Swyddog Datblygu Hyfforddiant Beicio – Cymru
gwenda.owen@ctc.org.uk

symudol 07825 081097 ffôn 029 20750 301
CTC d/o RoSPA 2 Cwrt y Parc Llanisien Caerdydd CF14 5GH

sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Galw ar Rieni i Yrru'n Fwy Diogel mewn Ymgyrch 'Er Eu Lles Hwy' yn Abertawe

Mae modurwyr yn cael eu targedu mewn ymgyrch gyrru diogel sy'n ceisio annog rhieni i yrru'n fwy diogel a dangos esiampl dda i'w plant.

Mae'r ymgyrch 'Er eu lles hwy' yn cynnwys posteri ar gefn bysus yn Abertawe ac mewn cysgodfannau bysus ar draws y ddinas sy'n amlygu'r arferion gwael y mae miloedd o yrwyr yn eu defnyddio bob dydd.

Mae gweithredoedd megis goryrru, anfon negeseuon testun wrth yrru a pheidio â gwisgo gwregys diogelwch yn ffactorau cyffredin o hyd ymysg gyrwyr, er eu bod yn anghyfreithlon.

Mae Tîm Diogelwch Ffyrdd Cyngor Abertawe yn gobeithio atgyfnerthu'r negeseuon diogelwch i fodurwyr trwy amlygu'r ffaith bod plant yn aml yn eistedd mewn cerbydau'n gwylio'r hyn y mae eu rhieni'n ei wneud a'u bod yn debygol o'u copïo yn y dyfodol.

Meddai Jeff Green, Swyddog Diogelwch Ffyrdd y Sir, "Gall plant sy'n eistedd yng nghefn cerbydau weld yn hawdd yr hyn sy'n digwydd pan fo rhieni wrth y llyw. Os gallant weld bod eu rhieni'n goryrru, yn anfon negeseuon testun neu nid ydynt yn gwisgo gwregys diogelwch, efallai y byddant yn credu fod hynny'n iawn.

"Rydym yn gobeithio y bydd yr ymgyrch 'Er eu lles hwy' yn taro deuddeg gyda rhieni a'u gwneud yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae eu plant yn sylwi arno a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i ddangos esiampl dda y tu ôl i'r llyw."

Meddai Wayne Tucker, Rheolwr Diogelwch Ffyrdd Heddlu De Cymru, sy'n cefnogi'r ymgyrch, "Mae'n glir bod rhai pobl yn dal i anwybyddu'r ffaith y gall peidio â gwisgo gwregys diogelwch, defnyddio ffôn symudol wrth yrru neu oryrru eich lladd.

"Rydym yn ymroddedig i leihau marwolaethau ar ein ffyrdd a hoffwn annog pawb i yrru mewn modd cyfrifol a dangos ei bod hi'n hanfodol i rieni ddangos esiampl dda."

I gael gwybod rhagor, ffoniwch Jeff Green ar 01792 636147

Lansio Gêm Ar-lein i Blant

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi lansio gêm ar-lein ac arloesol i helpu i ostwng nifer y plant a gaiff eu lladd neu eu hanafu ar ffyrdd Prydain.

Mae 'Code of Everand' yn defnyddio byd rhithwir i helpu plant i ddatblygu sgiliau – fel dod o hyd i le diogel i groesi, a chynllunio at y dyfodol – i'w helpu i fod yn ddiogel yn y byd go-iawn.

Meddai'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Paul Clark, "Gall pobl ifanc heddiw ddefnyddio mwy o gyfryngau nag erioed o'r blaen ac mae eu hagwedd at gyfathrebu yn llawer mwy soffistigedig. Mae 'Code of Everand' yn adlewyrchu'r soffistigeiddrwydd hwnnw, a thrwy gyfathrebu â phlant drwy gyfrwng maen nhw eisoes yn ei mwynhau ei ddefnyddio, ein gobaith ni yw cynyddu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymddwyn yn ddiogel ar y ffyrdd."

Mae ymchwil wedi dangos y gall gemau cyfrifiadur helpu plant i ddatblygu sgiliau hanfodol fel meddwl yn rhesymegol, cynllunio at y dyfodol, a chydweithredu.

Gallwch chi ddod o hyd i'r 'Code of Everand' yn http://codeofeverand.co.uk/

Mae'r Her e-Ddiogelwch yn hoelio sylw ar dechnolegau arloesol i gynyddu diogelwch cerbydau ac ar nifer y bywydau y gellir eu harbed ar y ffyrdd drwy ddefnyddio mwy ar y technolegau hynny.

Mewn astudiaeth ddiweddar, tynnwyd sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o dechnolegau e-Ddiogelwch. Ond petai pawb sy'n prynu car yn ymwybodol o dechnolegau e-Ddiogelwch, byddai'r cyfraddau gosod yn codi un rhan o dair. Dangosai'r astudiaeth hefyd fod cryn wahaniaeth rhwng y ddau ryw o ran ymwybyddiaeth o e-Ddiogelwch. Gwyddai menywod gryn dipyn yn llai am y technolegau diogelwch hyn. Mae hynny, ynghyd â'r ffaith fod gan fenywod ran mewn prynu saith car o bob deg, yn dangos pa mor bwysig yw hi i fenywod fod yn ymwybodol o e-Ddiogelwch.

Yma gallwch chi lwytho i lawr bapur cefndir ar dechnolegau e-Ddiogelwch. Ynddo cewch ddisgrifiad cynhwysfawr o'r 5 technoleg e-Ddiogelwch a hyrwyddir gan yr Her e-Ddiogelwch eleni, o'u manteision ac o'r camau polisi sydd wedi'u cymryd o amgylch y byd i helpu i hyrwyddo e-Ddiogelwch

Penodi Arbenigwr Annibynnol ynghylch Gyrru dan Ddylanwad Alcohol a Chyffuriau

Mae arbenigwr annibynnol wedi'i benodi i ystyried newidiadau posibl i'r gyfraith ynghylch gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau. Bydd Syr Peter North yn cynnig cyngor ynglŷn â'r achos o blaid newid y terfyn ar yfed a gyrru a hefyd yn ystyried a oes angen tynhau'r gyfraith ynghylch gyrru dan ddylanwad cyffuriau.

Bydd yr astudiaeth hefyd yn ystyried effeithiau tebygol alcohol a chyffuriau o ran newid ymddygiad gyrwyr, a'r camau ymarferol y bydd eu hangen i helpu i gyflwyno unrhyw drosedd newydd neu ddiwygiedig.

Meddai'r Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Andrew Adonis:

"Mae diogelwch ar y ffyrdd wedi gwella cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, bydd mil yn llai o bobl yn marw ar y ffyrdd mewn blwyddyn nag a wnâi ganol y 1990au. Gan Brydain, bellach, y mae un o'r systemau ffyrdd mwyaf diogel yn y byd.

"Ond mae angen i ni gwtogi ymhellach ar nifer y trasiedïau ar ein ffyrdd. Y llynedd, lladdwyd 430 o bobl oherwydd yfed a gyrru ac mae'r ymchwil yn awgrymu bod y cyhoedd yn pryderu'n fawr am yrru dan ddylanwad cyffuriau.

"Gall fod achos dros gryfhau rhagor ar y gyfraith i gwtogi ar ddamweiniau a achosir gan yrru dan ddylanwad diod a chyffuriau. Rwyf wedi penodi Syr Peter North i roi cyngor annibynnol i mi ynghylch gostwng y terfyn ar yfed a gyrru a thaclo gyrru dan ddylanwad cyffuriau drwy gyflwyno trosedd newydd."

Meddai Syr Peter North:

"Bydd gyrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn dal i arwain at nifer fawr o farwolaethau ac anafiadau difrifol. Yr her fydd gweld a all newidiadau yn y gyfraith a'i phrosesau gwtogi ar eu nifer.

"Dydy'r problemau cyfreithiol ac ymarferol ddim yn hawdd eu datrys ond rwy'n bwriadu ymgynghori'n eang yn eu cylch. Fe ddof i'm casgliadau annibynnol yn eu cylch, a'r nod fydd cynnig cyngor erbyn diwedd mis Mawrth."

Bydd Syr Peter yn cynnig cyngor ynghylch rhinwedd cynigion penodol i gyflwyno newidiadau i'r drefn gyfreithiol ynghylch gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau.

Yn achos gyrru dan ddylanwad alcohol, bydd yr adroddiad yn cynghori ynglŷn â'r achos o blaid newidiadau i'r terfyn penodedig o alcohol wrth yrru, sef gostwng y terfyn cyfredol neu ychwanegu terfyn newydd ac is a diwygio'r cosbau perthnasol. Yn achos gyrru dan ddylanwad cyffuriau, bydd yr astudiaeth yn cynnig cyngor ynghylch a oes angen deddfwriaeth newydd. Mae hi eisoes yn anghyfreithlon gyrru dan ddylanwad cyffur, ond gallai trosedd newydd ei gwneud hi'n anghyfreithlon gyrru â chyffuriau penodedig yn y system hyd at lefelau penodedig, yn union fel y mae hi eisoes yn drosedd gyrru â mwy na lefel benodedig o alcohol yn y gwaed.

Bydd Syr Peter yn cyflwyno'i gyngor i'r Adran Drafnidiaeth erbyn diwedd Mawrth 2010. Yna, bydd yr Adran yn ymgynghori ynglŷn â'r cyngor hwnnw ac yn cyhoeddi strategaeth derfynol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd.

Mae cylch gorchwyl yr astudiaeth i'w weld yma

RoSPA a Bike Team yn Dod ynghyd i Gynnig Disgowntiau Yswiriant

Bellach, gall uwch-feicwyr RoSPA gael yswiriant beic-modur hynod gystadleuol drwy gytundeb swyddogol yr elusen ddiogelwch â'r brocer arbenigol, Bike Team.

Gall dros 3,000 o feicwyr modur sy'n aelodau o rwydwaith Uwch-Yrwyr a Beicwyr RoSPA (RoADAR) fod yn gymwys i gael disgownt o hyd at 25 y cant ar eu premiwm drwy'r brocer sydd â'i ganolfan yn Colchester. Mae Bike Team hefyd yn addo cynnig dyfynbris sy'n cyfateb i ddyfynbrisiau cwmnïau eraill, a rhewi prisiau i uwch-feicwyr cymwys RoSPA pan adnewyddant eu hyswiriant.

Meddai Bob Smalley, prif arholwr RoSPA: "Mae Bike Team wedi magu enw da am hyrwyddo beicio modur mwy diogel. Mae ein cytundeb partneriaeth yn cydnabod ymrwymiad Bike Team i wobrwyo beicwyr cyfrifol sydd wedi cyrraedd y lefel uchaf o hyfforddiant ac o ymwybyddiaeth o grefft gyrru ar y ffyrdd."

Gall uwch-feicwyr RoSPA hefyd elwa o amrywiaeth o fanteision ychwanegol, gan gynnwys beicio yn yr UE am hyd at 90 diwrnod, diogelu eu disgownt dim-hawliad am ddim, ac yswirio beic ychwanegol am bris isel.

Mae dros 50 o grwpiau RoADAR ym Mhrydain. Bydd tiwtoriaid gwirfoddol yn y grwpiau yn gymwys, yn awtomatig, i gael yswiriant hyfforddi goddefol am ddim, a bydd hynny'n arbennig o ddefnyddiol wrth hyfforddi beicwyr modur ar y ffyrdd.

I gael rhagor o fanylion am yr yswiriant, ffoniwch 0800 917 5429 neu ewch i www.biketeam.co.uk

I gael rhagor o fanylion am RoADAR, ewch i www.roadar.org

Gyrwyr Ceir Cwmni heb fod yn Gwirio Ddigon

Yn ôl arolwg gan TyreSafe, gall nifer poenus o uchel o yrwyr ceir cwmni fod yn gyrru'n anghyfreithlon a bod mewn perygl o gael niwed difrifol.

Cafwyd bod cynifer â 25% o yrwyr ceir cwmni heb wirio dyfnder patrwm eu teiars erioed ac nad oedd 41% arall wedi'i wirio yn ystod y chwe mis diwethaf.

Gan fod cyfrifoldeb ar gwmnïau a'u gweithwyr i ofalu am ddiogelwch teiars cerbydau cwmni, gall y rhai sydd heb fod yn gwneud y gwirio angenrheidiol wynebu dirwyon a chosbau eraill.

"Fel rhan o'u rhwymedigaethau iechyd a diogelwch, dylai cwmnïau sicrhau bod eu gyrwyr yn deall bod cyfrifoldeb arnynt i wirio'u teiars," meddai Stuart Jackson, cadeirydd TyreSafe.

"Gan fod gyrwyr ceir cwmni fel rheol yn teithio rhyw 20,000 o filltiroedd y flwyddyn, sef bron dwbl milltiroedd modurwyr preifat, mae'n arbennig o bwysig iddyn nhw roi sylw i'w teiars. Mae ein teclyn ni, sy'n costio 20c, yn ffordd syml a chyflym i weld a oes gan eich teiars ddigon o ddyfnder patrwm i fod yn ddiogel ac yn gyfreithiol. O wirio fel hyn dim ond unwaith y mis, gallai nifer y damweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith, a'u cost i fusnesau Prydain, ostwng yn rhyfeddol."

Yn ôl cyfraith Prydain ar hyn o bryd, rhaid i ddyfnder y patrwm ar deiars ceir fod yn 1.6mm, o leiaf, ar draws tri-chwarter canol y patrwm o amgylch y teiar. Bydd gyrwyr sy'n torri'r ddeddf yn wynebu dirwy o hyd at £2,500 a thri phwynt cosb am bob teiar anghyfreithlon.

www.tyresafe.org/

Van Best Practice

Mae gwefan newydd wedi'i lansio i helpu busnesau sydd â faniau. Mae'r rhaglen Van Best Practice yn helpu defnyddwyr faniau i arbed arian drwy wella perfformiad gweithredol eu faniau o ran yr amgylchedd a diogelwch.

Ewch i wefan Van Best Practice

Dedfrydau Llymach i Yrwyr Peryglus

Mae'r Ysgrifennydd Cyfiawnder, Jack Straw, wedi cyhoeddi y dylai gyrwyr peryglus sy'n achosi anafiadau difrifol i eraill dreulio rhagor o amser yn y carchar.

Drwy godi uchafswm y ddedfryd am yrru'n beryglus o ddwy i bum mlynedd, bydd modd i lysoedd osod cosbau llymach ar yrwyr peryglus sy'n chwalu bywydau pobl eraill.

I weithredu'r newid hwnnw, bydd gofyn cyflwyno deddfwriaeth fel rhan o ymgyrch y llywodraeth i gadw pobl yn ddiogel ar ein ffyrdd a chryfhau'r gyfraith yn erbyn gyrru di-hid.

Bydd hynny'n dilyn cyflwyno troseddau newydd eraill i sicrhau bod gyrwyr sy'n lladd yn wynebu carchar. Yn 2006 daeth troseddau newydd, sef achosi marwolaeth drwy yrru'n ddi-hid ac achosi marwolaeth pan fo'r gyrrwr wedi'i anghymhwyso neu heb yswiriant, yn ddeddf gwlad. Gall barnwyr ac ynadon, felly, anfon gyrrwr i garchar am bum mlynedd am y gyntaf o'r troseddau hynny ac am ddwy flynedd am yr ail.

Meddai'r Ysgrifennydd Cyfiawnder, Jack Straw:

'Gall gyrru'n beryglus ddinistrio bywydau a chael effaith ddifäol ar deuluoedd a chyfeillion y dioddefwyr.

'Rydyn ni wedi gwrando'n ofalus iawn ar ddioddefwyr gyrwyr peryglus, ar eu teuluoedd ac ar grwpiau diogelwch ar y ffyrdd, ac mae eu profiadau wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y newidiadau hyn.

'Gan fod hwn yn fater pwysig a phersonol i'r rhai sy'n ymgyrchu o blaid newid y gyfraith, credais y byddai'n briodol rhoi gwybod iddyn nhw cyn gynted â phosibl ein bod ni'n benderfynol o wneud y newid pwysig hwn.

'Ond gan fod cyflwyno deddfau newydd yn cymryd amser, does dim modd rhoi hyn ar y llyfr statud yn syth. Mae hynny'n anochel pan fydd angen diwygio deddfwriaeth sylfaenol, fel yn yr achos hwn. Bydd hi felly'n beth amser cyn bod modd dod â'r newidiadau i rym.

'Am fod gyrru'n beryglus yn cyfrannu at y saith marwolaeth sy'n digwydd ar ffyrdd Prydain bob dydd, mae'n hanfodol bod y llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i daclo bygythiad gyrru'n beryglus.'

Meddai Paul Clark, y Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd:

'Er bod gan Brydain ffyrdd sydd gyda'r mwyaf diogel yn y byd, rydyn ni'n benderfynol o ostwng rhagor ar nifer y trasiedïau erchyll sy'n digwydd bob blwyddyn.

'Bydd y mesur newydd a llym hwn yn ein helpu i gyrraedd y nod, ac yn anfon neges glir at y dyrnaid anghyfrifol, sef na fyddwn ni'n godde'r rheiny sy'n anwybyddu diogelwch pobl eraill ac yn torri rheolau gyrru.'

Newyddion y BBC - Degawd o Farwolaethau ar y Ffyrdd

Gan ddefnyddio data swyddogol sydd wedi'u rhyddhau gan yr Adran Drafnidiaeth, mae'r BBC wedi creu map rhyngweithiol sy'n dangos lleoliad pob damwain angheuol ar y ffordd ym Mhrydain rhwng 1999 a 2008.

Cliciwch yma i fynd i wefan y BBC.

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2010 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl..

Golygydd: Steve Baker, RoSPA sbaker@rospa.com

02920 250 600
Nid yw RoSPA yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.